

# GORUCHWYLIO O BELL

## Canllaw i Ymgeiswyr

Fersiwn 1 – Ionawr 2022

www.wjec.co.uk

# Cynnwys

1. Rhagarweiniad ........ 2
2. Trosolwg ........ 2
3. Cyn eich Prawf ........ 2
4. Offer addas ........ 3
5. Gwybodaeth benodol i gymwysterau: Cyfarpar ac adnoddau ychwanegol ........ 3
6. Ystafell Addas ........ 3
7. Os oes Problem ........ 4
8. Cael Mynediad i'r Gwasanaeth Goruchwylio o Bell ........ 4
9. Cyfarwyddiadau Cam wrth Gam ........ 5
10. Camymddwyn ........ 19
Atodiad A: Hysbysiad Preifatrwydd ........ 20

# 1. Rhagarweiniad

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu chi i baratoi ar gyfer eich prawf ar-lein gan ddefnyddio gwasanaeth Goruchwylio o Bell CBAC.

Mae Goruchwylio o Bell yn ffordd o adael i chi sefyll eich prawf ar-lein i ffwrdd o'ch canolfan. Gall hyn fod yn eich cartref neu mewn lleoliad addas arall, heb i oruchwyliwr fod yn yr un ystafell â chi.

Mae CBAC wedi dechrau gweithio mewn partneriaeth gyda chorff o'r enw 'Talview' i ddarparu Goruchwyliaeth o Bell ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- CBAC Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd (Cwestiynau Dewis Lluosog)
- Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol: Lefel 1, 2 a 3 (Cwestiynau Dewis Lluosog)
- Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol: Lefel 1, 2 a 3 (Cwestiynau Dewis Lluosog)

Ni chewch ddefnyddio cyfrifiannell ar gyfer Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol, ac ni chewch ddefnyddio geiriaduron ar gyfer Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol ychwaith.

# 2. Trosolwg

Mae Goruchwylio o Bell yn defnyddio gwe-gamera a microffon eich cyfrifiadur/gliniadur i recordio'r hyn sy'n digwydd ar eich sgrin chi wrth i chi sefyll eich prawf.

Mae'r system yn gwneud recordiad ac yn ei gadw fel bod modd i'r ganolfan ei adolygu o bell ar ôl i chi orffen ac allgofnodi. Mae hyn yn cael ei wneud i wneud yn siŵr eich bod wedi ymddwyn yn briodol ac na wnaethoch chi dwyllo mewn unrhyw ffordd.

Dim ond ar ôl i'ch canolfan chi wylio a gwrando ar eich recordiad ac yn hapus eich bod wedi ymddwyn yn gywir y byddwch chi'n cael gwybod a ydych chi wedi pasio ai peidio.

Os oes gan eich canolfan unrhyw bryderon ynghylch yr hyn a welwyd, gallai hynny fod yn gamymddwyn, a gallech chi gael eich diarddel o'r asesiad.

# 3. Cyn eich Prawf

Cyn defnyddio'r cyfleuster Goruchwylio o Bell i sefyll eich prawf ar-lein, bydd angen i chi wneud hyn:

- darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd (Atodiad A).
- bod â dull adnabod hunaniaeth (ID) addas i'w archwilio sydd yn cynnwys eich enw llawn yn unig. Ni ddylech ddefnyddio eich pasbort na'ch trwydded yrru fel dull adnabod hunaniaeth. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol ychwanegol.
- darparu cyfeiriad e-bost dilys ar gyfer eich canolfan
- cwblhau gwiriadau caledwedd i gadarnhau bod yr offer a'r porwr gwe y byddwch chi'n ei ddefnyddio yn addas
- ymgyfarwyddo â'r rhyngwyneb ar-sgrin/Goruchwylio o Bell drwy sefyll prawf ymarfer
- cwblhau gwiriadau pellach ar y galedwedd ar y diwrnod y byddwch chi'n sefyll eich prawf
- gwneud yn siŵr bod yr ystafell yr ydych am ei defnyddio i sefyll eich prawf yn addas.

## 4. Offer addas

Bydd angen offer addas a phorwr gwe arnoch chi i sefyll eich prawf gan ddefnyddio Goruchwylio o Bell:

- Offer addas.
    - Cyfrifiadur PC neu gyfrifiadur Applemac
- Gwe-gam a microffon
- Porwr gwe a argymhellir – defnyddiwch y fersiwn diweddaraf
    - **Ar gyfer PC** – Chrome neu Firefox **NID** Explorer
    - **Ar gyfer Applemac** – Chrome **NID** Safari

## 5. Gwybodaeth benodol i gymwysterau: Cyfarpar ac adnoddau ychwanegol

### Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Cymhwyster Craidd

Mae'r asesiad allanol Cwestiynau Dewis Lluosog yn 75 munud o hyd ac mae'n cynnwys 50 o gwestiynau. Nid oes angen cyfrifianellau ac ni chewch fynd ag unrhyw nodiadau na deunyddiau ategol i mewn i'r asesiad.

### Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif a Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu

Mae'r Profion er mwyn Cadarnhau yn y ddau sgìl wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

- Lefel 1 – 20 cwestiwn, sy'n para 30 munud ar y mwyaf
- Lefel 2 – eto, 20 cwestiwn ond sy'n para 45 munud ar y mwyaf
- Lefel 3 – 30 cwestiwn, sy'n para 60 munud ar y mwyaf.

**Ni** chewch ddefnyddio cyfrifiannell o unrhyw fath ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif na geiriadur o unrhyw fath ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cyfathrebu.

**Gall** ymgeiswyr ddefnyddio papur plaen a beiro neu bensil yn ystod y Prawf er mwyn Cadarnhau, ond dylid dangos hyn i'r camera cyn dechrau'r prawf i ddangos ei fod yn wag. Ar ddiwedd y prawf, rhaid dangos bod unrhyw bapur a ddefnyddiwyd wedi ei ddinistrio.

Ni chaniateir unrhyw ddeunydd arall yn yr amgylchedd profi.

## 6. Ystafell Addas

Rhaid i'r ystafell lle rydych chi am sefyll eich prawf:

- fod yn lle i chi weithio heb amhariad am gyfnod cyfan eich prawf
- bod wedi'i goleuo'n dda ac yn dawel
- peidio â chynnwys offer heb awdurdod, fel ffonau symudol, ail fonitor ac ati
- peidio â chynnwys dogfennau a llyfrau

## 7. Os oes Problem

Os byddwch chi'n cael problem ar unrhyw adeg yn ystod y broses hon, rhaid i chi gysylltu â'ch canolfan am gefnogaeth.

Dylech geisio cwblhau'r prawf lle bynnag y bo'n bosibl. Os bydd unrhyw beth yn digwydd ac y teimlwch ei fod y tu hwnt i'ch rheolaeth, dylech ddweud wrth eich canolfan cyn gynted â phosibl, ar yr un diwrnod ag y safoch eich prawf fyddai orau.


## 8. Cael Mynediad i'r Gwasanaeth Goruchwylio o Bell



Dylech fod wedi derbyn neges e-bost gan Talview (no-reply@talview.com), yn cynnwys cod dilysu a chyswllt i'r safle. Os nad ydych chi'n gallu dod o hyd i'r neges hon yn eich e-bost, edrychwch yn eich ffolder e-bost sothach / sbam. Os nad ydych yn gallu dod o hyd i e-bost o hyd, yna cysylltwch â'ch canolfan.

Y llwyfannau Surpass neu Connect sy'n cael eu defnyddio i ddarparu'r asesiad, yn dibynnu ar ba asesiad rydych chi'n ei sefyll. Byddwch chi wedi derbyn cod allwedd gan eich canolfan. Mae angen y cod hwnnw i gael mynediad i'r asesiad a bydd gofyn i chi roi'r cod allwedd i mewn pan ofynnir i chi wneud hynny.


## 9. Cyfarwyddiadau Cam wrth Gam

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cliciwch ar y botwm **mynychu** yn y gwahoddiad e-bost a anfonwyd gan Talview. | |
| 2 |  | Dewiswch eich iaith |

| | | |
|---|---|---|
| 3 |  | Copïwch a gludwch y cod dilysu o'r gwahoddiad e-bost<br><br>Ticiwch y ddau flwch arall ar y sgrin hon i fynd ymlaen<br><br>Cliciwch ar y botwm **MYND** |
| 4 |  | Ar y sgriniau nesaf byddwch chi'n cael eich tywys drwy'r gwiriadau i roi prawf ar eich gwe-gam a mic i wneud yn siŵr eu bod yn ateb gofynion y llwyfan.<br><br>Cliciwch ar **Nesaf** |

| | | |
|---|---|---|
| 5 |  | Bydd y system yn gwirio bod camera a mic ar gael, a bod yr hysbysiadau wedi'u troi ymlaen ar eich porwr<br><br>Efallai y bydd yn gofyn i chi roi mynediad i Talview.com i'ch mic a chamera<br><br>Yna, bydd y system yn symud ymlaen i'r ffenestr nesaf |
| 6 |  | Mae'r system yn defnyddio meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial i olrhain eich wyneb yn ystod yr asesiad. Mae'r drefn hon yn cael ei sefydlu yn y camau nesaf<br><br>Cliciwch ar **Nesaf** |


## 7




Byddwch chi'n cael rhai awgrymiadau ar gyfer tynnu eich llun.

Cliciwch ar **Nesaf**

## 8





Pan fyddwch chi yn y lle iawn, cliciwch ar **Tynnwch Lun**.

Yna, bydd y system yn gallu adnabod eich wyneb.

Os nad yw'r system yn gallu adnabod eich wyneb efallai y bydd yn gofyn i chi dynnu'r llun eto (gallai hyn ddigwydd os ydych yn gwisgo sbectol sy'n adlewyrchu'n llachar er enghraifft)

9








Ar ôl i chi dynnu eich llun yn llwyddiannus, byddwch chi'n cael eich tywys drwy'r broses o wirio sain er mwyn gwneud yn siŵr bod eich mic yn gweithio'n iawn.

Cliciwch ar **NESAF**


Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin i gwblhau gwirio'r mic.

Ar ôl gwirio eich mic, byddwch chi'n gallu symud ymlaen i'r sgrin nesaf

| | | |
|---|---|---|
| 10 |  | Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin i gwblhau gwirio'r mic.<br><br>Ar ôl gwirio eich mic, byddwch chi'n gallu symud ymlaen i'r sgrin nesaf |
| 11 |  | **Os gofynnodd eich canolfan i chi ddarparu Llun fel dull adnabod hunaniaeth (ID), bydd angen i chi ddal y Llun hwn (ni ddylech ddefnyddio eich pasbort na'ch trwydded yrru) o flaen y camera a chliciwch ar y botwm Cipio.**<br><br>Os nad yw eich canolfan wedi gofyn i chi ddarparu Llun fel dull adnabod, cliciwch ar y botwm **Cipio** i dynnu llun arall ohonoch chi. |


| | | |
|---|---|---|
| 12 |   | Yn y Prawf Amgylchedd, mae gofyn i chi ddefnyddio'r gwe-gam i recordio eich amgylchoedd ac i ddangos nad oes gennych unrhyw ddeunyddiau a/neu adnoddau sydd heb eu caniatáu o'ch cwmpas.<br><br>Cliciwch ar **Dechrau'r Prawf** |
| 13 |   | Gallwch chi glicio ar **'Gweld Demo'** i ddangos yr hyn y mae angen i chi ei wneud<br><br>Cliciwch ar **Dechrau Recordio** pan fyddwch chi'n barod i recordio eich amgylchoedd |

**14**




Ar ôl i chi orffen recordio, cliciwch ar **Cyflwyno**


**15**




Bydd angen i chi rannu eich sgrin â Talview.

I wneud hyn, cliciwch ar **Ymlaen i'r Arholiad**

16




Pan fyddwch chi'n rhannu eich sgrin gwnewch yn siŵr eich bod ar y tab **'Eich Sgrin Gyfan'**


Yna cliciwch ar y llun o'ch sgrin i'w huwcholeuo fel sydd i'w weld yn y sgrinlun (bydd lliw glas o'i gwmpas)

Yna cliciwch ar **Rhannu**

Ni fyddwch chi'n gallu clicio ar **Rhannu** tan y byddwch chi wedi clicio ar y llun o'ch sgrin gyfan


**Efallai na fydd yr hyn rydych chi'n ei gyflwyno yn cael ei gyfrif os nad ydych chi'n rhannu eich sgrin**

17





Wedyn, gallwch chi fynd ymlaen i'r arholiad

Cliciwch ar **Nesaf**


| | | |
|---|---|---|
| 18 |  | Bydd angen i chi glicio ar **Cychwyn Sesiwn.** Ar ôl i chi wneud hynny ymhen ychydig eiliadau byddwch chi'n gweld sgrin cod allwedd ar gyfer yr asesiad Surpass |
| 19 |  | Byddwch chi'n gweld faint o amser sydd ar ôl yn y sesiwn Goruchwylio o Bell Talview (gall hyn fod yn wahanol i'r amser a ganiateir ar gyfer yr asesiad)<br><br>Gallwch chi osod y prawf i **Sgrin Lawn** (defnyddiwch y **fysell ESC** i fynd yn ôl i'r sgrin arferol)<br><br>Bydd dewis y botwm **Gorffen** yn stopio'r sesiwn Goruchwylio o Bell Talview.<br><br>Gallwch chi guddio'r rheolaethau hyn drwy glicio ar y saeth i fyny. Gallwch chi glicio ar y cogiau gwyrdd i'w dangos nhw eto. |

**20**





Rhowch y cod allwedd a gawsoch gan eich canolfan i mewn a chliciwch ar **IAWN**.

**21**





Byddwch chi'n gweld eich enw cyntaf, eich cyfenw, teitl y prawf a'r iaith y byddwch chi'n sefyll y prawf ynddi. Os yw'r manylion hyn yn gywir, cliciwch ar **Cadarnhau.**

Byddwch chi wedyn yn gallu cychwyn yr asesiad Surpass.

| | | |
|---|---|---|
| 22 |  | Byddwch chi'n gweld y fflag hwn ar waelod eich sgrin i ddweud wrthych bod eich sgrin yn cael ei rhannu. Cliciwch **Cuddio** i'w symud oddi ar y sgrin. **PEIDIWCH Â** chlicio ar stopio rhannu |
| 23 |  | Atebwch y cwestiynau sydd wedi'u rhestru ar ochr chwith y sgrin.<br><br>Gallwch symud rhwng cwestiynau naill ai drwy glicio ar y tabiau rhif ar yr ochr chwith, neu drwy glicio ar y botwm **Nesaf** ar waelod y sgrin ar y dde.<br><br>Mae'r amser sydd gennych ar ôl i gwblhau'r asesiad yn cael ei ddangos ar **frig y sgrin** |
| 24 |  | Unwaith y byddwch chi wedi gorffen ateb y cwestiynau i gyd, rhaid i chi orffen yr asesiad – dim ond drwy wneud hyn y bydd yr atebion yn cael eu cyflwyno i'w marcio. I wneud hyn cliciwch ar **Gorffen y Prawf** ar frig y sgrin, ar yr ochr dde |


25




Bydd angen i chi gadarnhau eich bod am orffen y prawf.

Mae dwy sgrin i gadarnhau.


26




PEIDIWCH Â CHAU FFENESTR Y PORWR unwaith y bydd eich asesiad wedi'i gyflwyno, er ei fod yn dweud y gallwch chi wneud hynny yn awr.

Gan adael eich porwr ar agor, cliciwch ar y botwm **Gorffen** Talview ar ochr dde'r sgrin


27




Unwaith y byddwch chi wedi clicio ar **Gorffen**, byddwch chi'n mynd drwy nifer o sgriniau sy'n gofyn i chi a ydych chi am orffen y sesiwn Talview

Ewch ymlaen i gadarnhau eich bod am orffen – a byddwch chi wedyn yn cyrraedd y sgrin derfynol

Dyna'r adeg y byddwch chi'n gallu cau eich porwr.




Peidiwch ag anghofio dweud wrth eich canolfan eich bod wedi gorffen y prawf neu fyddwch chi ddim yn cael canlyniad!

## 10. Camymddwyn

Cofiwch, ar ôl i chi orffen eich prawf ac allgofnodi yn y ffordd gywir, bydd eich recordiad yn cael ei adolygu. Cofiwch hyn, pan fyddwch chi'n sefyll eich prawf:

- peidiwch â gadael yr ystafell ar unrhyw bryd
- rhaid i chi ymddwyn yn briodol
- peidiwch â siarad neu ryngweithio ag unrhyw un arall
- peidiwch â defnyddio na chael mynediad i unrhyw ddyfeisiau, deunydd neu ddogfennaeth heb ganiatâd
- peidiwch â gwneud unrhyw beth annheg nac anonest yn ystod y prawf
- peidiwch â cheisio twyllo na thorri'r rheolau.

Gall methiant i wneud hyn gael ei ystyried yn gamymddwyn posibl.

# Atodiad A: Hysbysiad Preifatrwydd

**Rhagarweiniad**

CBAC sy'n darparu'r hysbysiad preifatrwydd hwn. CBAC yw prif ddarparwr cymwysterau dwyieithog Cymru.

Oherwydd bod y pandemig coronafeirws wedi amharu ar ddarpariaeth cymwysterau, cyflwynodd CBAC wasanaeth newydd ar gyfer ysgolion a cholegau ('**Canolfannau**') sy'n golygu:

- Gall ymgeiswyr sefyll rhai o gymwysterau ac asesiadau ar-lein CBAC mewn lleoliadau ar wahân i'r Canolfannau eu hunain (er enghraifft, yn y gwaith neu o gartref);
- Bydd y Canolfannau'n goruchwylio'r arholiadau ac asesiadau perthnasol o bell, naill ai mewn amser real (h.y. wrth i'r arholiad neu'r asesiad ddigwydd) (sef '**Goruchwylio Byw**') neu drwy adolygu recordiad o ymgeisydd yn sefyll yr arholiad neu'r asesiad ar ôl hyn (sef '**Goruchwylio drwy Recordio ac Adolygu**').

Defnyddir llwyfan goruchwylio o bell (y '**System**') i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir uchod (y '**Gwasanaethau Goruchwylio o Bell**'), sydd ar gael i CBAC gan gorff trydydd parti, Talview Inc ('**Talview**').

Bydd defnyddio'r System i ddarparu'r Gwasanaethau Goruchwylio o Bell yn golygu bod angen defnyddio gwybodaeth bersonol ymgeiswyr mewn nifer o ffyrdd newydd. Hefyd cynhyrchir gwybodaeth bersonol newydd yn ymwneud ag ymgeiswyr o ganlyniad i hyn. Er enghraifft:

- Bydd angen i ganolfannau a CBAC rannu gwybodaeth bersonol ychwanegol â'i gilydd sy'n ymwneud ag ymgeiswyr a fydd yn sefyll arholiadau ac asesiadau ar-lein perthnasol.
- Bydd angen i CBAC drefnu bod peth gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag ymgeiswyr ar gael i Talview; a
- Bydd y System yn defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial (AI) i fonitro ymgeiswyr wrth iddynt sefyll arholiadau ac asesiadau ar-lein er mwyn canfod ymddygiad a allai fod yn arwydd bod ymgeisydd yn camymddwyn.

Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw darparu gwybodaeth i'r ymgeiswyr hynny fydd yn defnyddio'r System sy'n ymwneud â'r ffordd y mae CBAC yn defnyddio eu gwybodaeth bersonol. Ymhlith pethau eraill, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys gwybodaeth i ymgeiswyr o ran pa wybodaeth bersonol yn ymwneud â nhw a ddefnyddir a/neu a gynhyrchir o ganlyniad i ddarpariaeth Gwasanaethau Goruchwylio o Bell gan CBAC, sut y defnyddir gwybodaeth bersonol ymgeiswyr a gyda phwy y rhennir y wybodaeth honno.

**Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ategu polisi preifatrwydd cyffredinol CBAC, sydd i'w weld ar wefan CBAC** yma.

Hefyd, bydd y Canolfannau a/neu CBAC yn anfon canllawiau ychwanegol at ymgeiswyr sy'n defnyddio'r System a fydd yn ymwneud â'r prosesau a'r gweithdrefnau dan sylw.

**Pa ddata personol fydd yn cael eu prosesu a pham?**

Drwy ddarparu'r Gwasanaethau Goruchwylio o Bell bydd CBAC yn defnyddio'r wybodaeth bersonol ganlynol yn ymwneud ag ymgeiswyr:

- Eich enw cyntaf a chyfenw;
- Eich cyfeiriad e-bost;
- Eich Rhif Adnabod ymgeisydd; a'ch
- Cerdyn myfyriwr neu ddull adnabod ffotograffig arall ('**RhA Ffotograffig**').

Bydd y Canolfannau'n darparu'r wybodaeth bersonol uchod i CBAC neu bydd yr ymgeiswyr eu hunain yn darparu'r RhA Ffotograffig.

Mae angen defnyddio'r wybodaeth bersonol a restrir uchod fel a ganlyn:

- Galluogi CBAC i wneud y trefniadau angenrheidiol gyda Talview i sefydlu'r sesiynau goruchwylio o bell;

- Galluogi Canolfannau i gadarnhau hunaniaeth ymgeiswyr drwy gymharu eu llun ar-sgrin â'u RhA Ffotograffig; a

- Galluogi Talview i rannu recordiadau a data a gynhyrchir yn ystod sesiynau goruchwylio o bell â CBAC a'r Canolfannau.

Yn ogystal, cynhyrchir y wybodaeth bersonol ganlynol yn ymwneud ag ymgeisydd o ganlyniad i ddefnydd yr ymgeisydd o'r System:

- Recordiad fideo o'r ymgeisydd yn 'gwirio'r amgylchedd' cyn dechrau ar arholiad neu asesiad ar-lein. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu'r ymgeisydd yn sganio'r amgylchedd o gwmpas ac o dan ei ddesg er mwyn dangos tystiolaeth nad oes ganddo unrhyw ddeunyddiau neu ddyfeisiau y gellid eu defnyddio i'w helpu yn ystod arholiad neu asesiad;

- Sgrinlun o wyneb yr ymgeisydd. Bydd Canolfannau'n defnyddio'r llun hwn i'w cynorthwyo wrth adnabod ymgeiswyr ac er mwyn i'r feddalwedd AI y cyfeirir ati uchod allu adnabod wyneb dynol wrth fonitro arholiad neu asesiad ar-lein. Ni ddefnyddir unrhyw dechnoleg adnabod wynebau yn rhan o'r feddalwedd AI;

- Recordiad fideo (ffilm a sain) o'r ymgeisydd yn sefyll yr arholiad neu asesiad ar-lein. Bydd y System yn creu recordiad o'r fath yn awtomatig unwaith y bydd ymgeisydd yn cychwyn ar ei arholiad neu asesiad ar-lein. Bydd y Canolfannau'n ei ddefnyddio at ddibenion goruchwylio;

- Data a gynhyrchir gan y feddalwedd AI o ganlyniad i fonitro'r ymgeisydd wrth iddynt sefyll yr arholiad neu asesiad. Bydd data o'r fath yn cynnwys fflagiau wedi'u hawtomeiddio sy'n adnabod ymddygiad a allai ddangos bod ymgeisydd yn camymddwyn a sgôr gydymffurfio gyffredinol;

- Data a gynhyrchir gan oruchwylwyr Canolfannau wrth iddynt oruchwylio arholiad neu asesiad. Bydd data o'r fath yn cynnwys fflagiau digidol a sylwebaeth (lle mae goruchwyliwr yn gweld ymddygiad a allai fod yn arwydd o gamymddwyn ar ran ymgeisydd) a sgôr gydymffurfio gyffredinol.

Yn gyson ag arferion arholi ac asesu arferol, cyfrifoldeb Canolfannau yw penderfynu'n derfynol a yw ymgeisydd wedi camymddwyn yn unol â'u polisïau a gweithdrefnau mewnol eu hunain.

**Beth yw sail gyfreithiol prosesu gwybodaeth bersonol ymgeiswyr gan CBAC?**

Dim ond os oes un neu fwy o 'seiliau cyfreithiol' dros brosesu yn bresennol y gall unrhyw gorff gyfiawnhau defnyddio gwybodaeth bersonol. Mae deddfwriaeth diogelu data y DU yn nodi'r seiliau cyfreithiol y gellir dibynnu arnynt.

O ran prosesu gwybodaeth bersonol ymgeiswyr at ddibenion y Gwasanaethau Goruchwylio o Bell, y sail gyfreithiol y bydd CBAC yn dibynnu arni yw bod angen prosesu o'r fath er mwyn buddiannau dilys y mae CBAC a Chanolfannau yn mynd ati i'w cynnal.

Y buddiannau dilys hynny yw bod angen i CBAC adnabod a chynnig ffyrdd newydd o ddarparu ei gymwysterau, yn gyson â safonau gofynnol, yn benodol o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws.

Yn ogystal, o ran cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, mae CBAC a City & Guilds yn darparu cyfres o gymwysterau ar y cyd. Mae City & Guilds yn defnyddio'r System yn barod. Drwy ddefnyddio'r System mae CBAC felly yn sicrhau bod cysondeb a pharhad i ymgeiswyr ar draws y gyfres o gymwysterau.

**Gyda phwy y bydd CBAC yn rhannu gwybodaeth bersonol ymgeiswyr?**

- Bydd CBAC yn rhannu enwau, cyfeiriadau e-bost a rhifau adnabod ymgeiswyr gyda Talview at ddibenion galluogi Talview i drefnu a rhedeg sesiynau goruchwylio o bell.
- Bydd CBAC yn darparu recordiadau a data a gynhyrchir drwy weithredu'r feddalwedd AI i'r Canolfannau at ddibenion Goruchwyliaeth Recordio ac Adolygu ac er mwyn i Ganolfannau allu penderfynu am gamymddwyn ymgeiswyr.

**Pa fesurau diogelwch sydd ar waith?**

Mae mesurau diogelwch technegol a threfniadaethol yn amddiffyn y System a chyfyngir mynediad i wybodaeth bersonol ymgeiswyr i'r aelodau hynny o staff CBAC, Talview a Chanolfannau y mae angen mynediad o'r fath arnynt i gyflawni eu rolau.

Hefyd:

- Bydd pob aelod o staff CBAC, Talview a Chanolfannau sydd â mynediad i'r System yn gaeth i rwymedigaethau cyfrinachedd er mwyn sicrhau y gallant ond defnyddio gwybodaeth bersonol ymgeiswyr at ddibenion cyflawni eu rolau; a
- Chyfyngir ar fynediad i recordiadau i nifer cyfyngedig o aelodau o staff Canolfannau a CBAC.

**A fydd unrhyw benderfyniadau cwbl awtomataidd yn cael eu gwneud?**

Dan y gyfraith diogelu data, mae rheolau penodol yn berthnasol os defnyddir gwybodaeth bersonol unigolyn i wneud penderfyniad pwysig am yr unigolyn hwnnw drwy ddulliau awtomataidd (h.y. heb unrhyw ymwneud dynol).

Er bod y System yn defnyddio meddalwedd AI i fonitro ymgeiswyr yn ystod arholiadau ac asesiadau ar-lein ac i gynhyrchu sgorau cydymffurfiaeth, ni fydd y Ganolfan yn gwneud penderfyniadau am gamymddwyn ymgeiswyr ar sail data a gynhyrchir gan y feddalwedd AI yn unig.

O ran Goruchwylio Byw a Recordio ac Adolygu:

- Bydd goruchwylwyr Canolfannau'n arsylwi naill ai sesiynau byw neu recordiadau o sesiynau; a
- Bydd Canolfannau'n penderfynu ynghylch camymddwyn gan ymgeiswyr yn unol â'u polisïau a gweithdrefnau gan wneud hynny ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yn unig. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth fel unrhyw fflagiau a sylwadau y bydd goruchwylwyr dynol wedi'u gwneud. Dim ond i gynorthwyo Canolfannau â'r broses hon y defnyddir unrhyw sgorau a data a gynhyrchir gan y feddalwedd AI.

**Am ba mor hir y bydd CBAC yn cadw gwybodaeth bersonol ymgeiswyr?**

Bydd Talview yn storio gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag ymgeiswyr ar y System ar ran CBAC am gyfnod o 3 mis o ddyddiad cynnal yr arholiad neu asesiad perthnasol. Caiff gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag ymgeiswyr ei chadw am y cyfnod hwn er mwyn galluogi CBAC a'r Canolfannau i adolygu'r wybodaeth berthnasol pe byddai angen iddynt wneud hynny.

Ar ôl y cyfnod hwn o dri mis, bydd Talview yn tynnu gwybodaeth bersonol ymgeiswyr oddi ar y System ac yn ei harchifo ar ran CBAC am gyfnod pellach o dri mis. Mae cyfyngiadau ychwanegol ar fynediad i wybodaeth bersonol ymgeiswyr yn ystod y cyfnod hwn. Diben archifo o'r fath yw galluogi CBAC i gael mynediad i wybodaeth bersonol ymgeiswyr pe byddai problem neu gwestiwn yn codi ynghylch arholiad neu asesiad.

Ar ddiwedd y cyfnod archifo, bydd Talview yn dileu gwybodaeth bersonol ymgeiswyr yn barhaol.

**A fydd gwybodaeth bersonol ymgeiswyr yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU?**

Rhaid i unrhyw gorff sy'n trosglwyddo gwybodaeth bersonol ymgeiswyr y tu allan i'r DU ('**trosglwyddiad cyfyngedig**') sicrhau ei fod yn bodloni rhai amodau penodol.

Yn yr achos hwn, er bod Talview yn lletya'r System yn yr AEE (a ganiateir drwy drefniadau arbennig sydd ar waith rhwng y DU a'r AEE):

- Cafodd Talview ei sefydlu a'i leoli yn UDA ac mae'n defnyddio tîm cyfyngedig o gyflogeion sydd wedi'u lleoli yn India i gefnogi'r System;
- Os bydd Canolfannau'n defnyddio Goruchwyliaeth Fyw, yna efallai y bydd angen i Talview ddefnyddio is-gontractwr yn India i gyflawni rhai tasgau penodol.

O ganlyniad, mae gofyn i CBAC gymryd camau ychwanegol i sicrhau bod gwybodaeth bersonol ymgeiswyr yn cael ei diogelu'n iawn.

Cyflawnodd CBAC asesiad risg o'r trosglwyddiad i asesu'r risgiau perthnasol wrth drosglwyddo deunydd yn gyfyngedig i Talview a daeth i'r casgliad bod y risg i wrthrychau data yn un cymharol fach. Hefyd, mae CBAC a Talview wedi rhoi dulliau diogelu ychwanegol ar waith i sicrhau bod data personol ymgeiswyr wedi'u diogelu'n briodol.

Dim ond pan fydd CBAC yn cytuno i hynny y bydd Canolfannau'n defnyddio Goruchwyliaeth Fyw. Mewn sefyllfa fel hon, bydd CBAC yn gweithredu fel a nodir uchod i sicrhau bod data personol ymgeiswyr wedi'u diogelu'n briodol.

**Pa hawliau sydd gan ymgeiswyr mewn perthynas â'u gwybodaeth bersonol?**

Mae gan unigolion nifer o hawliau mewn perthynas a'u gwybodaeth bersonol dan y gyfraith diogelu data yn y DU. Dyma nhw:

**Hawl mynediad:** Hawl yw hwn i gael mynediad i wybodaeth bersonol yr unigolyn ei hun ac amrywiol wybodaeth ategol.

**Hawl i gael cywiro gwybodaeth bersonol:** Hawl yw hwn i gael cywiro gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir neu os yw'n anghyflawn.

**Hawl i ddileu:** Hawl yw hwn i gael dileu neu dynnu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

**Hawl i wrthwynebu:** Hawl yw hwn i wrthwynebu i'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau.

**Hawl i gyfyngu ar brosesu:** Hawl yw hwn i 'flocio' neu atal prosesu eich gwybodaeth bersonol.

**Hawl i gludadwyedd data:** Hawl yw hwn i gael ac i ailddefnyddio eich gwybodaeth bersonol at eich dibenion eich hun mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig.

Efallai na fydd yr holl hawliau uchod yn berthnasol o ran y wybodaeth bersonol y bydd CBAC yn ei phrosesu o ran darparu Gwasanaethau Goruchwylio o Bell. Gallwch ddarganfod mwy am eich hawliau a pha bryd y maent yn berthnasol ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Sut gallwch chi gysylltu â CBAC?**

Swyddog Diogelu Data CBAC yw Ben Newby. Gallwch gysylltu â Ben fel a ganlyn ben.newby@cbac.co.uk .

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â gwybodaeth@cbac.co.uk.

Os nad ydym yn gallu delio â chwyn i'ch boddhad neu os ydych yn anhapus â'r ffordd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, mae gennych yr hawl ar unrhyw bryd i wneud cwyn i'r ICO. Gallwch gysylltu â'r ICO yn https://ico.org.uk/concerns neu drwy ffonio 0303 123 1113.